FOOD STANDARDS AGENCY
WALES
ASIANTAETH SAFONAU BWYD
CYMRU

Adroddiad ar Wasanaeth Gorfodi Cyfraith Fwyd

Cyngor Sir Benfro

20 – 23 Ionawr 2004

Rhagair

Mae archwiliadau o wasanaethau gorfodaeth cyfraith fwyd awdurdodau lleol yn rhan o drefniadau Asiantaeth Safonau Bwyd Cymru i wella diogelwch a hyder y defnyddiwr o ran bwyd. Mae'r trefniadau hyn yn cydnabod mai cyfrifoldeb awdurdodau unedol yw gorfodi cyfraith fwyd sy'n gysylltiedig â diogelwch, hylendid, cyfansoddiad a labelu bwyd, bwyd a fewnforiwyd a bwydydd anifeiliaid. Yn bennaf, caiff y swyddogaethau rheoleiddio hyn sy'n perthyn i awdurdodau lleol, eu cynnig drwy eu Gwasanaethau Iechyd yr Amgylchedd a Safonau Masnach.

Mae'r adroddiad archwilio atodedig yn archwilio Gwasanaeth Gorfodi Cyfraith Fwyd yr awdurdod lleol. Mae'r asesiad yn cynnwys y trefniadau lleol a weithredir ar gyfer archwilio busnesau bwyd a bwydydd anifeiliaid, samplo a dadansoddi, rheolaeth fewnol, hyrwyddo diogelwch bwyd a gweithgareddau addysgiadol. Dylid cydnabod y ceir cryn amrywiaeth yn y dull a'r modd y gall awdurdodau gynnig eu gwasanaethau gorfodi bwyd, sy'n adlewyrchu anghenion a blaenoriaethau lleol.

Mae archwiliadau'r asiantaeth yn asesu cydymffurfiaeth awdurdod lleol yn ôl Safon Gorfodi Cyfraith Fwyd, 'Y Safon', a gyhoeddwyd gan yr Asiantaeth yn rhan o Gytundeb Fframwaith ar Orfodaeth Cyfraith Fwyd Awdurdodau Lleol, ac sydd ar gael ar wefan yr Asiantaeth.

Prif nod y cynllun archwilio yw cynnal a gwella diogelwch a hyder defnyddwyr trwy sicrhau bod awdurdodau lleol yn cynnig gwasanaeth gorfodi cyfraith fwyd effeithiol. Mae'r cynllun hefyd yn rhoi'r cyfle i nodi a lledaenu arfer da a chynnig gwybodaeth i lywio polisi'r Asiantaeth ar ddiogelwch bwyd.

Mae'r adroddiad yn cynnwys ychydig o ddata ystadegol, er enghraifft, am nifer yr arolygiadau ar safleoedd bwyd a wnaed. Mae gwefan yr Awdurdod yn cynnwys data ynghylch gweithgarwch gorfodi ar gyfer holl awdurdodau lleol y DU.

I'ch cynorthwyo, gellir dod o hyd i restr o dermau technegol a ddefnyddir yn yr adroddiad archwilio, yn Atodiad A.

	CYNNWYS	Tud.
1	**Cyflwyniad**	**4**
	Rheswm am yr Archwiliad	**4**
	Cwmpas yr Archwiliad	**4**
	Cefndir	**5**
2	**Crynodeb Gweithredol**	**7**
	Canfyddiadau'r Archwiliad	
3	Trefnu a Rheoli	**9**
4	Adolygu a Diweddaru Polisïau a Gweithdrefnau a Ddogfennwyd	**12**
5	Swyddogion Awdurdodedig	**13**
6	Cyfleusterau ac Offer	**15**
7	Archwilio Safleoedd Bwyd a Bwydydd Anifeiliaid	**16**
8	Cwynion am Fwyd, Bwydydd Anifeiliaid a Safleoedd Bwyd	**21**
9	Egwyddor yr Awdurdod Cartref	**22**
10	Cyngor i Fusnesau	**23**
11	Cronfa Ddata Safleoedd Bwyd a Bwydydd Anifeiliaid	**24**
12	Arolygu a Samplo Bwyd a Bwydydd Anifeiliaid	**26**
13	Rheoli ac Ymchwilio i Achosion a Chlefydau Heintus sy'n Ymwneud â Bwyd	**29**
14	Digwyddiadau Diogelwch Bwyd	**31**
15	Gorfodaeth	**32**
16	Cofnodion ac Adroddiadau Arolygu	**35**
17	Cwynion am y Gwasanaeth	**38**
18	Cysylltiad â Sefydliadau Eraill	**39**
19	Monitro Mewnol	**40**
20	Adolygiad gan Drydydd Parti neu Gydradd	**41**
21	Hyrwyddo Diogelwch a Safonau Bwyd a Bwydydd Anifeiliaid	**42**
A	Atodiad	
	Geirfa	

1 Cyflwyniad

1.1 Mae'r adroddiad hwn yn cofnodi canlyniadau'r archwiliad o dan benawdau Safon Gorfodi Cyfraith Fwyd yr Asiantaeth Safonau Bwyd, ac mae ar gael i'r cyhoedd ar wefan yr Asiantaeth. Mae copïau caled ar gael o Lyfrgell yr Asiantaeth Safonau Bwyd yn Aviation House, 125 Kingsway, Llundain WC2B 6NH, Ffôn: 020 7276 8181. Mae'r rhain yn destun ffi o £7.50 ar gyfer eu hatgynhyrchu a'u dosbarthu, yn ogystal â £1.50 ar gyfer eu postio a'u pecynnu.

Rheswm am yr Archwiliad

1.2 Rhoddodd Deddf Safonau Bwyd 1999 y pwer i'r Asiantaeth Safonau Bwyd osod safonau a monitro ac archwilio gwasanaethau gorfodi cyfraith fwyd awdurdodau lleol. Cynhaliwyd archwiliad y gwasanaeth bwyd yng Nghyngor Sir Benfro o dan adran 12(4) y Ddeddf, yn rhan o raglen archwilio flynyddol yr Asiantaeth Safonau Bwyd.

Cwmpas yr Archwiliad

1.3 Archwiliwyd yr Awdurdod fel rhan o raglen o archwiliadau llawn Asiantaeth Safonau Bwyd Cymru o bob un o'r 22 o awdurdodau lleol yng Nghymru.

1.4 Cwmpas yr archwiliad oedd gwasanaeth gorfodi cyfraith hylendid bwyd, safonau bwyd a bwydydd anifeiliaid Sir Benfro. Cynhaliwyd elfen ar-y-safle'r archwiliad yn swyddfeydd yr Awdurdod yn Hwlffordd, rhwng 20 - 23 Ionawr 2004.

1.5 Aseswyd cydymffurfiaeth yr Awdurdod yn erbyn Y Safon gan yr archwiliad, gan ddefnyddio protocolau archwilio ASB/AP3/1 - ASB/AP21/1. Mabwysiadwyd Y Safon gan Fwrdd yr Asiantaeth Safonau Bwyd ar 21 Medi 2000, (diwygiwyd Mawrth 2002, a Mehefin 2003), ac mae'n ffurfio rhan o Gytundeb Fframwaith yr Asiantaeth ag awdurdodau lleol. Gellir dod o hyd i'r Cytundeb Fframwaith a'r protocolau archwilio ar wefan yr Asiantaeth.

Cefndir

1.6 Awdurdod Unedol Cymreig yw Cyngor Sir Benfro, â'i ganolbwynt yn Nhref Sirol Hwlffordd yn ne orllewin Cymru. Mae'n cynnwys ardal o 165,000 hectar, ac mae iddi sylfaen boblogaeth o ryw 116,000, sy'n cynyddu i ryw 200,000 yn ystod misoedd yr haf pan fydd yr ardal yn cynnal nifer sylweddol o dwristiaid. Y Cyngor Sir yw'r cyflogwr mwyaf yn yr ardal, ag iddo ryw 6,000 o staff.

1.7 Natur wledig sydd i'r ardal yn bennaf, gyda ffermio anifeiliaid a thyfu tatws yn sectorau pwysig yn yr economi lleol. Mae'r prif ganolfannau poblogaeth yn cynnwys Aberdaugleddau, Penfro, Abergwaun, Ty Ddewi, Dinbych-y-pysgod, a Hwlffordd.

1.8 Bu twristiaeth yn ffynhonnell cyflogaeth ac incwm o bwys yng nghyrchfannau arfordirol Sir Benfro ers 150 blynedd neu fwy, ac ategwyd hyn yn ddiweddarach gan ymwelwyr i Barc Cenedlaethol Arfordir Penfro a'r ardaloedd o'i amgylch. Ymysg pethau eraill, fel gweithgynhyrchu, masnach cyfanwerthu/adwerthu ac arlwyo, canolir cyflogaeth sylweddol ar ddiwydiannau morwrol fel llongau, pysgota, a llwybrau'r llongau fferi rhwng Gorllewin Cymru a Gweriniaeth Iwerddon.

1.9 Gan Adain Gwarchod y Cyhoedd Cyfarwyddiaeth Trafnidiaeth ac Amgylchedd yr Awdurdod, a leolir yn Neuadd y Sir, Hwlffordd, oedd y cyfrifoldeb am orfodi cyfraith fwyd a bwydydd anifeiliaid, ac am reoli ac ymchwilio i achosion o wenwyn bwyd a chlefydau trosglwyddadwy.

1.10 Adeg yr archwiliad, roedd yr Adran wrthi'n cwblhau trosglwyddo cyfrifoldeb am orfodi safonau bwyd ac ychydig o'r cyfrifoldeb am fwydydd anifeiliaid o'r Tîm Safonau Masnach i'r Adain Bwyd, Diogelwch ac Iechyd Porthladdoedd. Hefyd, gorfodid deddfwriaeth bwydydd anifeiliaid gan Aelodau Tîm Iechyd Anifeiliaid y Gwasanaeth Safonau Masnach.

1.11 Roedd Swyddfeydd yr Awdurdod ar agor i'r cyhoedd rhwng 09.00 a 17.00, o ddydd Llun i ddydd Gwener, er bod swyddogion yn gweithio oriau hyblyg rhwng 08.00 a 18.00, ac yn cynnal arolygiadau y tu allan i'r oriau hyn pan fyddai'n ofynnol. Adeg yr archwiliad, roedd adolygiad o drefniadau y tu allan i oriau gwaith ar y gweill, er y dywedodd yr Awdurdod y darperid gwasanaeth brys.

1.12 Adroddodd yr Awdurdod y data canlynol o ran ei raglenni arolygu a samplo hylendid bwyd, safonau bwyd a bwydydd anifeiliaid yn ystod 2002 –2003:

Rhaglen arolygu	**Nifer y Safleoedd**
Gorfodaeth Hylendid Bwyd	1924
Gorfodaeth Safonau Bwyd	1687
Gorfodaeth Bwydydd Anifeiliaid	243

Gweithgarwch Gorfodi Rhagweithiol	**Nifer y Gweithredoedd**
Arolygiadau hylendid bwyd	728
Ymweliadau hylendid bwyd eraill	3418
Samplau bwyd microbiolegol ffurfiol	65
Arolygiadau safonau bwyd	601
Ymweliadau safonau bwyd eraill	60
Samplau safonau bwyd anffurfiol	82
Samplau safonau bwyd ffurfiol	99
Arolygiadau bwydydd anifeiliaid	13
Ymweliadau bwydydd anifeiliaid eraill	0
Samplau bwydydd anifeiliaid anffurfiol	16
Samplau bwydydd anifeiliaid ffurfiol	1

2 Crynodeb Gweithredol

2.1 Yn gyffredinol, roedd y gwasanaeth gorfodi cyfraith fwyd a bwydydd anifeiliaid a ddarparwyd gan yr Awdurdod adeg yr archwiliad yn foddhaol, ac roedd tystiolaeth bod rhaglen helaeth o welliannau i'r gwasanaeth ar y gweill. Calonogwyd yr archwilwyr gan dystiolaeth y penodwyd Uwch Swyddogion yn ddiweddar â chanddynt gyfrifoldeb am reoli'r gwasanaeth.

Roedd yr awdurdod yn weithredol yn hyrwyddo'r gwasanaeth diogelwch bwyd a safonau bwyd a, hefyd, roedd yn cynnig ystod o wybodaeth i safleoedd bwyd a bwydydd anifeiliaid yn ei ardal.

2.2 Mae rheoli gwasanaeth gorfodi bwyd a bwydydd anifeiliaid modern, effeithiol ac effeithlon yn dibynnu ar system rheoli data a gwybodaeth gywir a chyfredol. Er yr ymddangosai fod system yr Awdurdod, yn y bôn, yn ddiogel ac yn gadarn ac yn gallu perfformio yn effeithiol, nodwyd rhai diffygion yn ansawdd a chywirdeb y data adeg yr archwiliad.

2.3 **Cryfderau'r Awdurdod**

Cofnodion Safleoedd Gweithgynhyrchu Bwyd a Safleoedd Bwydydd Anifeiliaid Cymeradwy a Chofrestredig
Roedd cofnodion ffeil ac adroddiadau am arolygiadau ar sefydliadau bwydydd anifeiliaid Cymeradwy, ac ar safleoedd gweithgynhyrchu o ran safonau bwyd, yn gynhwysfawr, yn fanwl, ac wedi'u cadw'n dda, gan alluogi swyddogion i bennu cwmpas a dyfnder priodol arolygiadau dilynol a gweithgarwch gorfodi arall.

Hyrwyddo Diogelwch a Safonau Bwyd
Ymgymerwyd ag ystod eang o weithgarwch hyrwyddo bwyd, a ddangosai ymrwymiad yr Awdurdod i raglen ragweithiol o weithgareddau cynghori ac addysgu a ategai ei ddyletswyddau statudol.

Cyngor i Fusnesau
Roedd yr Awdurdod yn gweithio'n weithredol gyda busnesau i'w helpu i gydymffurfio â deddfwriaeth hylendid bwyd, safonau bwyd a bwydydd anifeiliaid. Cynhwysai hyn ddarparu cyngor, dosbarthu llenyddiaeth ac aelodaeth mewn partneriaeth busnes lleol.

2.4 **Meysydd Allweddol ar gyfer eu Gwella gan yr Awdurdod**

Cywirdeb y Gronfa Ddata
Datgelodd yr archwiliad rai diffygion yn ansawdd a chywirdeb data hanesyddol yn system rheoli data a gwybodaeth y Tîm Bwyd. Effeithiai hyn ar allu'r Awdurdod i gynllunio ei raglen arolygu yn gywir ac adrodd data perfformiad a monitro manwl gywir.

Amlder Arolygu

Nid oedd yr Awdurdod yn cynnal arolygiadau hylendid bwyd a safonau bwyd yn ôl yr amlder sylfaenol sy'n ofynnol o dan Godau Ymarfer Rhif 8 a 9 y Ddeddf Diogelwch Bwyd.

Canfyddiadau'r Archwiliad

3 Trefnu a Rheoli

3.1 Gweithredai'r Awdurdod lywodraeth leol ar sail arddull Gabinet, gyda Chyfansoddiad a nodai drefniadau penderfynu yr Awdurdod. O dan y Cyfansoddiad, dirprwyid penderfyniadau ar rai materion penodol i swyddogion.

3.2 Cyfrifoldeb Adain Gwarchod y Cyhoedd Cyfarwyddiaeth Trafnidiaeth ac Amgylchedd yr Awdurdod oedd cyflwyno gwasanaeth gorfodi hylendid bwyd, safonau bwyd a bwydydd anifeiliaid.

3.3 Cynhwysai fframwaith cynllunio corfforaethol yr Awdurdod y Cynllun Corfforaethol a Gwella, a gynhyrchid ac a adolygid bob blwyddyn fel rhan o Raglen Cymru ar gyfer Gwella.

3.4 Nodai Cynllun 2003 - 2004 bum blaenoriaeth allweddol yr Awdurdod, a ddatblygwyd o dan ei Fenter Cynllunio a Phartneriaeth Cymunedol i hyrwyddo lles economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol Sir Benfro a'i phobl. Y pum blaenoriaeth ar gyfer 2003 - 2004 oedd:

- Datblygu cymunedau ffyniannus;
- Gwella cysylltiadau cyfathrebu Sir Benfro;
- Cyflwyno tyfiant economaidd ar sail anghenion lleol;
- Annog pobl i gyrraedd eu potensial;
- Hyrwyddo amgylchedd a werthfawrogir sy'n lân ac yn iach.

Cynhwysai'r pumed o'r rhain wasanaeth gorfodi cyfraith fwyd a bwydydd anifeiliaid yr Awdurdod.

3.5 Cynhwysai'r Cynllun Corfforaethol a Gwella fanylion am berfformiad yr Awdurdod mewn blynyddoedd cynt, a gosodai ddangosyddion a thargedau perfformiad ar gyfer 2003 – 2004. Y dangosyddion perfformiad a ddefnyddid ar gyfer bwyd a bwydydd anifeiliaid oedd:

- Canran yr arolygiadau ar safleoedd bwyd a ddylai fod wedi'u gwneud, ac a wnaed mewn gwirionedd ar gyfer:
  a) safleoedd uchel eu risg;
  b) safleoedd eraill;
- Canran y safleoedd a drwyddedwyd cyn pen 28 diwrnod gwaith o gwblhau cais, gan gynnwys cigyddion;
- Sgôr yn erbyn rhestrau gwirio arfer gorau gorfodi ar gyfer iechyd yr amgylchedd a safonau masnach.

3.6 O'r safleoedd a oedd i'w harolygu yn ystod 2002 - 2003, adroddodd yr Awdurdod iddo gyflawni 65% o'r arolygiadau hylendid bwyd mewn safleoedd uchel eu risg a 50% o'r arolygiadau mewn safleoedd eraill. Nodai Cynllun Corfforaethol a Gwella'r Awdurdod ar gyfer 2003 - 2004 fod perfformiad arolygu hylendid bwyd yn faes yr oedd angen ei wella. Dywedodd, "ar gyfer y 2 flynedd flaenorol, arolygwyd pob safle bwyd

uchel eu risg gennym, tra mai cyfartaledd Cymru ar gyfer safleoedd uchel eu risg yw 88%, a 67% ar gyfer safleoedd eraill. Roedd hwn yn berfformiad rhagorol a chyson. Fodd bynnag, y llynedd, cwympodd ein perfformiad yn sylweddol i 65% a 50% yn y drefn honno. Y rheswm am hyn oedd prinder cenedlaethol o swyddogion cymwys a diffyg argaeledd contractwyr addas. Ar hyn o bryd, dim ond un swydd wag sydd, a disgwylir llenwi honno erbyn mis Awst eleni."

3.7 Lluniodd yr Awdurdod Gynllun Gwasanaeth Gorfodi Cyfraith Fwyd ar gyfer 2003 – 2004 a oedd, yn gyffredinol, yn bodloni gofynion yr Arweiniad Cynllunio Gwasanaeth yn y Cytundeb Fframwaith ynghylch Gorfodi Cyfraith Fwyd Awdurdod Lleol. Cynhwysai'r Cynllun Gwasanaeth orfodi hylendid bwyd, safonau bwyd a bwydydd anifeiliaid, a chafodd ei gymeradwyo gan Gabinet yr Awdurdod ar 23 Mehefin 2003.

3.8 Roedd staff yn ymwybodol o'r Cynllun Gwasanaeth a'r targedau perfformiad a gynhwysid ynddo.

3.9 Fodd bynnag, nodwyd, yn sgil gwall rhifyddol, y cyfrifwyd nifer yr arolygiadau a oedd i'w gwneud yn ystod y flwyddyn yn anghywir. Er y nodai'r Cynllun Cyflwyno Gwasanaeth mai polisi'r Awdurdod ynghylch arolygiadau cyn-trwyddedu ar siopau cigyddion oedd eu harolygu yn unol â gradd risg y safle, cadarnhawyd y diwygiwyd y polisi hwn ar ôl derbyn arweiniad a gyhoeddwyd yn ganolog.

3.10 Nid oedd yr Awdurdod wedi cynnal a dogfennu adolygiad perfformiad blynyddol ar sail ei Gynllun Gwasanaeth ar gyfer 2002 – 2003 ac, felly, nid oedd wedi cyflwyno adolygiad i'w gymeradwyo gan yr Aelodau priodol, fel sy'n ofynnol o dan Y Safon.

3.11 Un o ddibenion yr adolygiad perfformiad yw amlygu meysydd yn y Cynllun Gwasanaeth na chyflawnwyd yn ystod y flwyddyn, tynnu sylw'r Aelodau atynt, a sicrhau yr ymdrinnir â nhw yn nhrefniadau gwasanaeth y flwyddyn olynol. Os na chynhelir adolygiad perfformiad, ei ddogfennu, a thynnu sylw'r Aelodau ato, efallai y bydd diffygion yn y gwasanaeth yn parhau heb eu datrys.

3.12 Lefel staffio Adran Gwarchod y Cyhoedd ar gyfer gweithgareddau gorfodi bwyd a bwydydd anifeiliaid, fel a fanylwyd yng Nghynllun Gwasanaeth Gorfodi Cyfraith Fwyd yr Awdurdod ar gyfer 2003 – 2004, oedd 11 swyddog Cyfwerth ag Amser Llawn.

3.13 Adeg yr archwiliad, adroddodd yr Awdurdod fod 10.2 o swyddogion amser llawn ganddo, diffyg o 0.8 ar y sefydliad.

3.14 Nododd y Cynllun Gwasanaeth fod gan drosglwyddo cyfrifoldeb am orfodi safonau bwyd o'r Tîm Safonau Masnach i'r Adain Bwyd, Diogelwch ac Iechyd Porthladdoedd oblygiadau o ran adnoddau, y byddai angen i'r Awdurdod fynd i'r afael â nhw yn ystod 2004 - 2005.

3.15 Cyllideb ariannol net y gwasanaeth gorfodi diogelwch bwyd ar gyfer 2003 - 2004 oedd £371,000, gostyngiad net o £9,000 (5.4%) ar gyllideb y flwyddyn gynt.

3.16 Cyllideb ariannol net y gwasanaeth gorfodi safonau bwyd ar gyfer 2003 - 2004 oedd £67,000, gostyngiad net o £16,000 (28%) ar gyllideb y flwyddyn gynt.

3.17 Ni nodwyd cyllideb ariannol net y gwasanaeth gorfodi bwydydd anifeiliaid.

3.18 Roedd y Gwasanaeth Gorfodi Diogelwch Bwyd yn destun adroddiad Cyfarwyddiaeth Gwerth Gorau yn ystod 1998 - 1999, a dynodwyd mai gwasanaeth da ydoedd. Cynhyrchwyd Cynllun Gwella.

Argymhellion

3.19 Dylai'r Awdurdod:

(i) Gynnal a dogfennu adolygiad perfformiad blynyddol ar sail y Cynllun Gwasanaeth, a chyflwyno'r adolygiad i'w gymeradwyo gan yr Aelodau priodol. [Y Safon – 3.2]

(ii) Ymdrin ag unrhyw amrywiannau a nodwyd gan yr adolygiad perfformiad yn nhrefniadau gwasanaeth y flwyddyn olynol. [Y Safon – 3.3]

4 Adolygu a Diweddaru Polisïau a Gweithdrefnau a Ddogfennwyd

4.1 Roedd yr Awdurdod wedi dogfennu ei bolisïau a'i weithdrefnau ar gyfer y rhan fwyaf o'r gweithgareddau gorfodi a gynhwysid yn y Safon; fodd bynnag, nid oedd wedi sicrhau eu bod i gyd wedi'u hadolygu'n rheolaidd yn ôl yr amlder priodol, fel a fanylwyd yn ei weithdrefn ddogfenedig. Adroddodd yr Awdurdod y bu ychydig o oedi mewn adolygu gweithdrefnau a fu'n ofynnol i alluogi'r Awdurdod i ganolbwyntio ar gyflwyno gweithdrefnau rheoli newydd mewn meysydd na fu eu hangen o'r blaen.

4.2 Sefydlwyd system reoli gynhwysfawr gan yr Awdurdod ar gyfer yr holl ddogfennaeth ynghylch ei weithgareddau gorfodi i sicrhau:

- Bod copïau cyfredol o ddogfennaeth briodol, gan gynnwys deddfwriaeth ac arweiniad, ar gael yn yr holl leoliadau ac i'r holl staff perthnasol;
- Bod awdurdodiad cywir ar gyfer newidiadau neu welliannau, a'u bod yn cael eu gwneud heb oedi gormodol; ac
- Y gwaredid dogfennau a ddisodlwyd.

4.3 Datgelodd gwiriad archwilio bod gan swyddogion fynediad at fersiynau presennol deddfwriaeth, arweiniad a gyhoeddwyd yn ganolog, a dogfennaeth briodol arall.

4.4 Roedd yr Awdurdod yn paratoi am system Sicrwydd Ansawdd ffurfiol ac, adeg yr archwiliad, roedd ei system rheoli ansawdd dogfenedig yn agosáu at gael ei gwblhau.

Argymhelliad

4.5 Dylai'r Awdurdod:

Sicrhau y caiff yr holl bolisïau a gweithdrefnau ar gyfer y gweithgareddau gorfodi a gynhwysir yn Y Safon eu hadolygu yn ôl yr amlder priodol, fel a fanylir yn y weithdrefn ddogfenedig.
[Y Safon – 4.1]

5 Swyddogion Awdurdodedig

5.1 Mae Adran 5 Deddf Diogelwch Bwyd 1990 ac Adran 67 Deddf Amaethyddiaeth 1970 yn ei wneud yn ofynnol i'r Awdurdod benodi digon o swyddogion ac arolygwyr awdurdodedig. Dyletswydd yr Awdurdod ei hun yw penodi swyddogion ac arolygwyr awdurdodedig, er y gall drefnu dirprwyo ei gyfrifoldeb o dan Adran 101 Deddf Llywodraeth Leol 1972.

5.2 Cynhwysai Adran 5 Cyfansoddiad yr Awdurdod, dyddiedig Mai 2002, ddirprwyo cyffredinol i Gyfarwyddwyr yr Awdurdod weithredu ar ran yr Awdurdod ynghylch unrhyw fater sydd o fewn portffolio swyddogaethol y Cyfarwyddwr, os nad oedd y mater wedi'i neilltuo i gorff arall.

5.3 Roedd gan yr Awdurdod weithdrefn ddogfenedig a oedd yn berthnasol i awdurdodi swyddogion a chontractwyr o dan Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990 a Deddf Amaethyddiaeth 1970. Daeth y weithdrefn ddogfenedig yn weithredol ar 1 Rhagfyr 2003 ac roedd yn gysylltiedig â'r meini prawf ar gyfer awdurdodi ymgymryd â gorfodi hylendid bwyd, safonau bwyd a bwydydd anifeiliaid.

5.4 Penodwyd swyddogion arweiniol a oedd yn gyfrifol am orfodi deddfwriaeth hylendid bwyd, safonau bwyd a bwydydd anifeiliaid, a gwiriwyd yn yr archwiliad bod gan y swyddogion hyn y wybodaeth, hyfforddiant a chymwysterau angenrheidiol sy'n ofynnol ar gyfer y fath benodiad.

5.5 Cadarnhâi awdurdodiadau a roddwyd y penodwyd swyddogion yn unol â'u cymwysterau a'u profiad.

5.6 Dangosai archwiliad o gofnodion arolygu a chofnodion eraill bod swyddogion, yn gyffredinol, yn gweithredu yn unol â'u hawdurdod, er y cynhaliwyd un arolygiad safonau bwyd gan swyddog nad oedd wedi'i awdurdodi.

5.7 Rhoddwyd llythyrau penodi i swyddogion awdurdodedig ar y ffurf a fanylwyd yn y weithdrefn ddogfenedig, a ddiffiniai'n glir awdurdodiad pob swyddog i weithredu. Nodwyd yr awdurdodwyd swyddogion o dan Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972.

5.8 Roedd yr Awdurdod wedi nodi'r angen am adolygiad o nifer y swyddogion awdurdodedig yr oedd eu hangen i wneud y gwaith a nodwyd yn ei Gynllun Gwasanaeth, ac roedd yn bwriadu ymdrin â hyn yn ystod 2004 - 2005.

5.9 Roedd gan yr Awdurdod Gynllun Corfforaethol ar gyfer Adolygu a Datblygu Perfformiad a oedd yn gymwys i'r holl staff, a System Blaenoriaethu Hyfforddiant Adrannol a ddaeth yn weithredol, yn ffurfiol, ar 1 Hydref 2003, er bod tystiolaeth y bu ei hegwyddorion yn weithredol ers tro byd. Rhwng popeth, darparai'r cynllun corfforaethol a'r system

adrannol ar gyfer nodi a chofnodi anghenion hyfforddi a hyfforddiant a wnaed, gan gynnwys datblygiad parhaus.

5.10 Yn gyffredinol roedd cofnodion hyfforddiant a wnaed wedi'u cadw'n dda, er y nodwyd nad oeddent, yn gyffredinol, yn cofnodi cynnwys ac amcanion y cwrs, na pharhad a dull asesu'r hyfforddiant a wnaed.

5.11 Dangosai cofnodion ymrwymiad yr Awdurdod i hyfforddiant a'i ymagwedd gadarnhaol at ddatblygiad personol a phroffesiynol. Roedd gofynion datblygiad parhaus Codau Ymarfer Rhif 8, 9 a 19 y Ddeddf Diogelwch Bwyd yn cael eu bodloni.

5.12 Cedwid copïau o gymwysterau academaidd perthnasol a chymwysterau eraill a chofnodion o hyfforddiant a phrofiad gan yr Awdurdod ac, felly, roedd yn gallu dangos bod y swyddogion a benodwyd gan yr Awdurdod yn swyddogion awdurdodedig o dan y Ddeddf Diogelwch Bwyd, gan gynnwys contractwyr, yn briodol o gymwys a phrofiadol.

Argymhelliad

5.13 Dylai'r Awdurdod:

Sicrhau y cedwir manylion am gynnwys, amcanion a pharhad yr holl hyfforddiant a ddarparwyd i swyddogion ar ffeil, ynghyd â chofnod o unrhyw asesiad a wnaed o ran yr hyfforddiant. [Y Safon – 5.4]

6 Cyfleusterau ac Offer

6.1 Roedd yr Awdurdod wedi peri bod y cyfleusterau a'r offer sy'n angenrheidiol i ganiatáu cynnal yr holl weithgareddau sy'n gysylltiedig â'r gwasanaeth, ar gael.

6.2 Gweithredwyd Gweithdrefn Cynnal a Chalibro Offer i sicrhau bod offer yn cael ei gynnal a'i galibro'n briodol, ac yn cael ei waredu o ganfod bod nam arno.

6.3 Calibrwyd offer yn unol â'r weithdrefn, a chedwid cofnodion priodol.

6.4 Ystyrid bod cronfa ddata'r safle'n gallu cynnig y wybodaeth sy'n ofynnol gan Asiantaeth Safonau Bwyd.

6.5 Fodd bynnag, yn y gorffennol, ni weithredwyd y gronfa ddata mewn ffordd a olygai ei bod yn gallu cynhyrchu gwybodaeth ddibynadwy a chywir.

6.6 Derbyniodd gweinyddwyr y system hyfforddiant ynghylch defnyddio cyfleuster adrodd annatod y gronfa ddata, ac roeddent yn gallu echdynnu data i'w ddadansoddi. Derbyniai'r Awdurdod gymorth ychwanegol gan gyflenwr y meddalwedd i gynhyrchu adroddiadau a dadansoddiadau rheoli a pherfformiad, yn ôl y gofyn.

6.7 Gwnaed tapiau wrth gefn yn ddyddiol o'r gronfa ddata gan y Gweithredwr TG, a chedwid copïau mewn cyfleusterau priodol mewn safle ar wahân.

Argymhelliad

6.8 Dylai'r Awdurdod:

Sicrhau y gweithredir y gronfa ddata yn y fath fodd fel ag i ddarparu gwybodaeth sy'n ofynnol gan yr Asiantaeth. [Y Safon – 6.4]

7 Archwilio Safleoedd Bwyd a Bwydydd Anifeiliaid

Hylendid Bwyd

7.1 Nododd Cynllun Gwasanaeth Gorfodi Cyfraith Fwyd yr Awdurdod ar gyfer 2003 - 2004 bod 1941 o fusnesau bwyd yn ei ardal yn destun arolygiadau hylendid bwyd. Dangosai'r proffil graddio risg a'r rhaglen arolygu a gynhwysid yn y Cynllun Gwasanaeth:

Categori Risg	Amlder Arolygu	Nifer y Safleoedd	% o'r Cyfanswm	Arolygiadau i'w gwneud	Yn hwyr o flynyddoedd blaenorol	Cyfanswm yr arolygiadau i'w gwneud yn ystod 2003-04
A	**6 mis**	**41**	**2**	**56**	**22**	**78**
B	**12 mis**	**172**	**9**	**151**	**45**	**196**
C	**18 mis**	**931**	**48**	**465**	**157**	**622**
D	**24 mis**	**201**	**10**	**96**	**43**	**139**
E	**36 mis**	**361**	**19**	**112**	**53**	**165**
F	**60 mis**	**195**	**10**	**52**	**25**	**77**
Heb eu graddio		**40**	**2**	**33**	**25**	**45**
Cyfanswm		**1941**		**972**	**357**	**1322**

7.2 Roedd rhai camgymeriadau rhifyddol yn y cyfanswm arolygu a adroddwyd yn y cynllun cyflwyno gwasanaeth.

7.3 Roedd gan yr Awdurdod weithdrefn ddogfenedig a nodai'r trefniadau ar gyfer trefnu, cynllunio a chynnal arolygiadau hylendid bwyd a raglennwyd, ac ar gyfer pennu camau ôl-arolygu priodol. Nodai'r weithdrefn y byddai'r Awdurdod yn graddio risg yr holl safleoedd yn unol â Chod Ymarfer Rhif 9 y Ddeddf Diogelwch Bwyd, a fyddai'n cael ei ddefnyddio i bennu amlder yr arolygiadau. Nodai'r Cynllun Gwasanaeth mai bwriad yr Awdurdod oedd arolygu 100% o'r safleoedd risg uchel 33% o'r safleoedd risg canolig a'r safleoedd heb eu graddio, a dim un o'r safleoedd risg isel a oedd i'w harolygu/a oedd yn hwyr ar gyfer y flwyddyn honno.

7.4 Fodd bynnag, datgelodd adroddiad a gynhyrchwyd yn ystod yr archwiliad bod arolygiadau hylendid bwyd yn hwyr ar 390 o fusnesau bwyd, 185 ohonynt yng nghategorïau risg A i C. Roedd safleoedd y nodwyd eu bod yn gweithredu'n dymhorol i gyfrif am ryw 10% o gyfanswm yr arolygiadau hwyr.

7.5 Dangosai ail adroddiad, a gynhyrchwyd yn ystod yr archwiliad, y cofrestrwyd 70 o fusnesau heb radd risg a dyrannu dyddiad arolygiad nesaf iddynt.

7.6 Dangosai archwiliad o hanes arolygu 17 o fusnesau bwyd bod 5 safle cyffredinol a 4 Safle Cymeradwy heb eu harolygu yn ôl yr amlder cywir.

7.7 Cynhwysai'r weithdrefn arolygu hylendid bwyd ddogfenedig ffurflen adrodd safonol ynghylch arolygu, asesiad pwynt rheoli critigol, a thaflen asesu risg a ddefnyddid gan arolygwyr i gofnodi arolygiadau hylendid bwyd cyffredinol. Gadewid ffurflen adrodd safonol ynghylch arolygu gyda'r perchennog ar ddiwedd arolygiad. Cynhwysai'r ffurflenni hyn yr holl wybodaeth sy'n ofynnol o dan God Ymarfer Rhif 9 y Ddeddf Diogelwch Bwyd.

7.8 Nid oedd y weithdrefn ddogfenedig yn cynnwys gweithdrefnau penodol ar gyfer arolygu a thrwyddedu siopau cigyddion, nac i arolygu a chymeradwyo safleoedd sy'n destun rheoliadau hylendid bwyd penodol i gynnyrch.

7.9 Cynhyrchwyd ffurf ddrafft gweithdrefn a ffurflen cofnodi arolygiad ar siop cigydd adeg yr archwiliad, a gydsyniai ag arweiniad a gyhoeddwyd yn ganolog.

7.10 Datgelai archwiliad o 9 ffeil ynghylch siopau cigyddion trwyddedig bod cofnodion, yn gyffredinol, yn gynhwysfawr ac wedi'u cadw'n dda, ac yr anfonwyd llythyrau'n manylu troseddau bach o ran rheoliadau cyffredinol hylendid bwyd gyda thrwyddedau mewn nifer o achosion. Fodd bynnag, mewn 2 achos, nid oedd copïau o drwyddedau ar ffeil.

7.11 Dangosai rhestr o siopau cigyddion a ddarparwyd gan yr Awdurdod na arolygwyd 8 safle yn ôl yr amlder cywir adeg cynhyrchu'r rhestr o'r gronfa ddata.

7.12 Cynhaliwyd arolygiadau gan swyddogion yn unol â lefel eu hawdurdodiad.

7.13 Yn gyffredinol, roedd nodiadau arolygu a data arolygu arall a gofnodwyd gan swyddogion adeg yr arolygiad, yn eglur ac yn adferadwy.

Argymhellion

7.14 Dylai'r Awdurdod:

(i) Sicrhau y cynhelir arolygiadau hylendid bwyd yn ôl yr amlder perthnasol, fel a bennir gan y radd risg briodol.
[Y Safon – 7.1]

(ii) Adolygu a gweithredu'r polisi a'r weithdrefn ynghylch siopau cigyddion i sicrhau y trwyddedir y safleoedd yn unol â Chodau Ymarfer y Ddeddf Diogelwch Bwyd ac arweiniad a gyhoeddwyd yn ganolog.
[Y Safon – 7.2]

(iii) Sefydlu, cynnal a gweithredu gweithdrefn arolygu ddogfenedig ar gyfer sefydliadau sy'n destun deddfwriaeth hylendid bwyd penodol i gynnyrch.
[Y Safon – 7.4]

Safonau Bwyd

7.15 Adroddodd Cynllun Gwasanaeth Gorfodi Cyfraith Fwyd yr Awdurdod ar gyfer 2003 - 2004 bod 1596 o fusnesau bwyd yn ei ardal yn destun arolygiadau safonau bwyd. Dangosai'r proffil graddio risg a'r rhaglen arolygu a gynhwysid yn y Cynllun Gwasanaeth:

Categori Risg	Amlder Arolygu	Nifer y Safleoedd	Nifer yr Arolygiadau	Yn hwyr o flynyddoedd blaenorol	Cyfanswm yr arolygiadau i'w gwneud yn ystod 2003-04
Uchel	**12 mis**	**14**	**14**	**0**	**14**
Canolig	**24 mis**	**1017**	**391**	**126**	**517**
Isel	**60 mis**	**565**	**43**	**305**	**348**
Nifer y Safleoedd		**1596**	**448**	**431**	**879**

7.16 Roedd gan yr Awdurdod weithdrefn ddogfenedig a nodai'r trefniadau ar gyfer trefnu, cynllunio a chyflawni arolygiadau safonau bwyd a raglennwyd, ac ar gyfer pennu camau ôl-arolygu priodol. Nodai'r weithdrefn y byddai'r Awdurdod yn graddio risg yr holl safleoedd yn unol â Chod Ymarfer Rhif 8 y Ddeddf Diogelwch Bwyd, a fyddai'n cael ei ddefnyddio i bennu amlder yr arolygiadau. Nodai'r Cynllun Gwasanaeth mai bwriad yr Awdurdod oedd arolygu 100% o safleoedd risg uchel a chanolig, ac na thargedid yr un o'r safleoedd risg isel i'w harolygu'r flwyddyn honno.

7.17 Fodd bynnag, datgelodd adroddiad a gynhyrchwyd yn ystod yr archwiliad bod arolygiadau safonau bwyd yn hwyr ar 345 o fusnesau bwyd, 1 ohonynt wedi'i gategoreiddio yn risg uchel a 125 ohonynt wedi'u categoreiddio yn safleoedd risg canolig.

7.18 Dangosai archwiliad o hanes arolygu 10 o fusnesau bwyd yr arolygwyd 5 safle yn ôl yr amlder cywir. Yn achos 2 o'r busnesau, ni chofnodwyd digon o ddata i bennu a gynhaliwyd yr arolygiadau yn ôl yr amlder cywir, ac ni arolygwyd 3 o'r safleoedd yn ôl yr amlder cywir.

7.19 Cynhwysai'r weithdrefn arolygu safonau bwyd ddogfenedig ffurflen archwilio safonau bwyd, a gynhwysai'r holl wybodaeth sy'n ofynnol o dan God Ymarfer Rhif 8 y Ddeddf Diogelwch Bwyd.

7.20 Yn gyffredinol, roedd nodiadau arolygu a data arolygu arall a gofnodwyd gan swyddogion adeg yr arolygiad, yn eglur ac yn adferadwy.

Argymhelliad

7.21 Dylai'r Awdurdod:
Sicrhau y cynhelir arolygiadau safonau bwyd yn ôl yr amlder perthnasol, fel a bennir gan y radd risg briodol.
[Y Safon – 7.1]

Bwydydd Anifeiliaid

7.22 Dangosai'r Cynllun Gwasanaeth ar gyfer 2003 - 2004 bod 296 o safleoedd yn ardal yr Awdurdod yn destun arolygiadau safonau bwydydd anifeiliaid a raglennwyd, ac y rhaglennwyd arolygu 71 ohonynt yn ystod y flwyddyn.

7.23 Cymeradwywyd 9 sefydliad a chofrestrwyd 287 o safleoedd gan yr Awdurdod o dan Reoliadau Bwydydd Anifeiliaid (Sefydliadau a Chyfryngwyr) 1999.

7.24 Roedd gan yr Awdurdod weithdrefn ddogfenedig a nodai'r trefniadau ar gyfer trefnu, cynllunio a chynnal arolygiadau rhaglenedig ar safleoedd bwydydd anifeiliaid, ac ar gyfer pennu camau ôl-arolygu priodol. Nodai'r weithdrefn y byddai arolygiadau ar safleoedd bwydydd anifeiliaid yn cael eu cynnal yn ôl amlder a oedd yn berthnasol i'r risg, gyda chymysgwyr cofrestredig yn cael eu harolygu bob 5 mlynedd, a sefydliadau Cymeradwy a safleoedd eraill bob 2 flynedd.

7.25 Fodd bynnag, datgelai adroddiad a gynhyrchwyd yn ystod yr archwiliad bod arolygiadau ar 40 o safleoedd bwydydd anifeiliaid yn hwyr, o ystyried meini prawf amlder arolygu safleoedd bwydydd anifeiliaid yr Awdurdod.

7.26 Cynhwysai gweithdrefn ddogfenedig arolygu safleoedd bwydydd anifeiliaid ffurflen arolygu bwydydd anifeiliaid a gynhwysai'r holl

wybodaeth sy'n ofynnol i bennu cydymffurfiad ag amodau cymeradwyo neu gofrestru priodol y Rheoliadau a Chyfarwyddeb 95/69/EC.

8 Cwynion am Fwyd, Bwydydd Anifeiliaid a Safleoedd Bwyd

8.1 Sefydlwyd dau bolisi a gweithdrefn ddogfenedig gan yr Awdurdod, a oedd yn gymwys i gwynion am hylendid bwyd, safonau bwyd a bwydydd anifeiliaid. Cynhwysid cwynion am safleoedd bwyd mewn polisi a gweithdrefn cyffredinol ar wahân a oedd yn ymwneud â cheisiadau am wasanaeth.

8.2 Nid oedd y gweithdrefnau dogfenedig o ran cwynion am hylendid bwyd a cheisiadau am wasanaeth wedi eu hadolygu neu eu huwchraddio ers mis Hydref 2001, ac nid oeddent yn adlewyrchu arfer presennol adeg yr archwiliad yn llawn.

8.3 Archwiliwyd 5 cwyn am hylendid bwyd, 5 cwyn am safonau bwyd, a 2 gwyn am safleoedd bwyd. Yn gyffredinol, nodai cofnodion y cynhaliwyd arolygiadau trylwyr ac y cymerwyd camau priodol yn unol â'r polisi gorfodi ac o fewn amserlenni perthnasol, er na ddilynwyd y weithdrefn ddogfenedig berthnasol yn llawn mewn 2 achos.

8.4 Adeg yr archwiliad, ni chafwyd unrhyw gwynion yn ddiweddar ynghylch bwydydd anifeiliaid.

Argymhellion

8.5 Dylai'r Awdurdod:

(i) Adolygu a diweddaru'r polisïau a'r gweithdrefnau dogfenedig ar gyfer ymdrin â chwynion am hylendid bwyd a cheisiadau am wasanaeth. [Y Safon - 8.1]

(ii) Sicrhau y gweithredir gweithdrefnau dogfenedig yn llawn ac y cânt eu dilyn gan yr holl swyddogion wrth ymchwilio i gwynion am fwyd a chwynion am safleoedd bwyd. [Y Safon – 8.2]

9 Egwyddor yr Awdurdod Cartref

9.1 Cofnodai Cynllun Gwasanaeth Gorfodi Cyfraith Fwyd gefnogaeth yr Awdurdod i Egwyddor yr Awdurdod Cartref ac iddo fabwysiadu'r Egwyddor. Cadarnhâi nifer o bolisïau a gweithdrefnau dogfenedig bod cysylltu ag awdurdodau cartref a gwreiddiol yn rhan annatod o broses orfodi'r Awdurdod.

9.2 Ardystiwyd yn ffurfiol gefnogaeth yr Awdurdod i Egwyddor yr Awdurdod Cartref gan Bwyllgor Gwarchod y Cyhoedd yr Awdurdod yn ei gyfarfod ar 25 Ebrill 1996 a, hefyd, nodai'n eglur faint o gymorth y byddai'r Awdurdod yn ei roi i awdurdodau cartref, gorfodi a gwreiddiol eraill.

9.3 Nodai Cynllun Gwasanaeth Gorfodi Cyfraith Fwyd fod yr Awdurdod yn gweithredu'n awdurdod cartref neu wreiddiol i 42 o fusnesau a weithredai yn ei ardal, a chanfuwyd yn ystod yr archwiliad mai ar gyfer materion safonau bwyd, yn bennaf, oedd y cysylltiadau awdurdod cartref hyn. Nid oedd gan yr Awdurdod unrhyw gytundebau awdurdod cartref ffurfiol.

9.4 Rhestrai adroddiad a ddarparwyd adeg yr archwiliad 33 o fusnesau y gweithredai'r Awdurdod yn Awdurdod Cartref/Gwreiddiol ar eu cyfer. Cofrestrwyd 18 o'r safleoedd hyn ar gronfa ddata awdurdod cartref LACORS, er y nodwyd bod angen adolygu ychydig o'r wybodaeth.

9.5 Roedd gan swyddogion fynediad i gronfa ddata Awdurdod Cartref LACORS ar y Rhyngrwyd, ac roeddent wedi gweithio drwy'r tiwtorial ar-lein ynghylch sut i'w ddefnyddio i'w galluogi i nodi cysylltiadau perthnasol ag Awdurdodau Cartref a Gwreiddiol ac awdurdodau lleol.

9.6 Dangosai cofnodion a archwiliwyd yn ystod yr archwiliad bod yr Awdurdod, yn gyffredinol, yn gweithredu Egwyddor yr Awdurdod Cartref yn effeithiol, a'i fod yn ymateb yn briodol i geisiadau am wybodaeth gan awdurdodau eraill.

9.7 Fodd bynnag, nodwyd ar un achlysur na roddwyd gwybod i Awdurdodau Cartref neu Wreiddiol bob tro am ganlyniadau samplau hylendid bwyd anfoddhaol ynghylch busnesau yr oedd ganddynt gyfrifoldeb amdanynt o dan Egwyddor yr Awdurdod Cartref.

Argymhelliad

9.8 Dylai'r Awdurdod:

Sicrhau y rhoddir gwybod i Awdurdodau Cartref a Gwreiddiol am ganlyniadau samplau anfoddhaol. [Y Safon - 9.5]

10 Cyngor i Fusnesau

10.1 Dangosodd yr Awdurdod ymagwedd weithgar a chadarnhaol at helpu busnesau lleol gydymffurfio â'r gyfraith, a ddangoswyd gan nifer o fentrau a weithredwyd, neu a oedd yn cael eu gweithredu. Roedd y rhain yn cynnwys:

- Hyrwyddo hyfforddiant hylendid bwyd drwy aelodaeth y Cydlynydd Hyfforddi â Fforwm Hyfforddi Hylendid Sir Benfro;
- Cynnig cyngor ar gymeradwyo a chofrestru bwydydd anifeiliaid;
- Cynnal ystod o gyrsiau hyfforddi ar hylendid bwyd, gan gynnwys CIEH Lefel 1, Lefel 3 a chyrsiau Diweddaru Lefel 1;
- Cynnig taflenni cyngor i fusnesau ynghylch labelu bwyd a safonau ansawdd;
- Aelodaeth o'r Bartneriaeth Fusnes Leol;
- Darparu cyrsiau hyfforddi o ran Ymarfer Hanfodol HACCP;
- Cynnig cyngor i fusnesau newydd.

10.2 Roedd tystiolaeth y rhoddwyd cyngor ar gais yn rheolaidd yn ystod arolygiadau.

11 Cronfa Ddata Safleoedd Bwyd a Bwydydd Anifeiliaid

11.1 Roedd yr Awdurdod wedi sefydlu system electronig ar gyfer rheoli data a gwybodaeth i Adain Gwarchod y Cyhoedd, a oedd yn cadw manylion am safleoedd bwyd a bwydydd anifeiliaid yn ei ardal.

11.2 Adeg yr archwiliad, nid oedd yr Awdurdod wedi sefydlu gweithdrefn ddogfenedig i sicrhau bod ei gronfa ddata o safleoedd bwyd a bwydydd anifeiliaid yn gywir ac yn gyfredol, ac y gweithredid mesurau diogelwch rhesymol i atal mynediad a llygredigaeth gan bobl anawdurdodedig. Fodd bynnag, adroddwyd eu bod yn y camau cynnar o baratoi gweithdrefn ddogfenedig adeg yr archwiliad.

11.3 Cynhyrchwyd cyfres o nodiadau cyfarwyddyd hawdd eu defnyddio a defnyddiol iawn ynglyn â'r gronfa ddata gan weinyddwr y system, a gynhwysai agweddau amrywiol ar y system gan gynnwys creu, cau a chyfuno cofnodion am safleoedd, newid perchnogaeth, gwirio cofrestriadau safleoedd bwyd, a chynhyrchu rhestrau ymweld. Hefyd, datblygwyd taflenni mewnbynnu data safonol ar gyfer manylion safleoedd a cheisiadau am wasanaeth, ac roeddent wrthi'n datblygu rhannau eraill o'r system.

11.4 Fodd bynnag, yn ystod yr archwiliad, nodwyd rhai gwallau yn y modd y gweithredid y gronfa ddata ac y cofnodid data.

11.5 Cydnabu'r archwilwyr bod yr Awdurdod, adeg yr archwiliad, wedi cychwyn mynd i'r afael â'r her o gywiro problemau a gafwyd ers tro byd â gweithrediad y gronfa ddata, a'u bod wedi gwneud cynnydd sylweddol yn hyn o beth. Fodd bynnag, roedd absenoldeb gweithdrefn ddogfenedig, a'r gwallau a fodolai o hyd, yn achosi i'r archwilwyr amau gallu'r gronfa ddata i ddarparu data monitro neu berfformiad cywir i'r Awdurdod neu i Asiantaeth Safonau Bwyd, neu i gynhyrchu rhaglenni arolygu cywir.

11.6 Cyfrifoldeb Gweinyddwr y System oedd creu cyfrifon a chyfrineiriau i ddefnyddwyr y gronfa ddata, ac am osod lefelau diogelwch defnyddwyr, a gweithredid y systemau hyn.

11.7 Yn ystod yr archwiliad, dewiswyd 10 o safleoedd bwyd yn ardal yr Awdurdod ar hap o gyfeiriadur busnes lleol. Bwydwyd pob un ohonynt i'r gronfa ddata a'u cynnwys yn y rhaglen arolygu.

Argymhelliad

11.8 Dylai'r Awdurdod:

Sefydlu, cynnal a gweithredu gweithdrefn ddogfenedig i sicrhau bod ei gronfa ddata o safleoedd bwyd a bwydydd anifeiliaid yn gywir ac yn gyfredol, ac y gweithredir mesurau diogelwch rhesymol i atal pobl anawdurdodedig rhag cael mynediad i'r gronfa ddata a'i newid.

[Y Safon – 11.2]

Arolygu a Samplo Bwyd a Bwydydd Anifeiliaid

12.1 Roedd gan yr Awdurdod weithdrefn ddogfenedig ar gyfer ildio bwyd yn wirfoddol, er bod angen diwygio hon i sicrhau cydymffurfiad â Chod Ymarfer Rhif 4 y Ddeddf Diogelwch Bwyd.

12.2 Roedd gan yr Awdurdod bolisi a gweithdrefn samplo dogfenedig ar gyfer samplo hylendid bwyd, safonau bwyd a bwydydd anifeiliaid, a rhaglen flynyddol ar gyfer pob un ohonynt. Hefyd, roedd gan yr Awdurdod raglenni i fonitro cregynbysgod a gynaeafwyd yn lleol, am wenwyn algaidd, ac i ddosbarthu gwelyau cregynbysgod ar gyfer cynaeafu masnachol.

12.3 Roedd tystiolaeth o ystod o weithgarwch samplo a anelid at ystod o gynhyrchion a gynhyrchid ac a weithgynhyrchid yn lleol, a chyfranogiad gweithgar mewn arolygon a gyd-drefnwyd yn rhanbarthol ac yn genedlaethol.

12.4 Rhestrai adroddiad a gynhyrchwyd gan yr Awdurdod fel rhan o'r ddogfennaeth cyn-arolygu gyfanswm o 239 o samplau diogelwch bwyd a safonau bwyd a gymerwyd yn ystod chwe mis cyntaf 2003 - 2004.

12.5 Roedd labordai a ddefnyddid gan yr Awdurdod i archwilio a dadansoddi samplau bwyd a bwydydd anifeiliaid wedi'u hachredu'n briodol, ac roeddent ar restr o Labordai Swyddogol y rhoddodd y DU wybod i'r Comisiwn Ewropeaidd amdanynt.

12.6 Penderfynodd Pwyllgor Gwarchod y Cyhoedd yr Awdurdod benodi ei Ddadansoddwyr Cyhoeddus ac Amaethyddol ym mis Ionawr 1996. Diweddarwyd y penodiadau ym mis Tachwedd 1996 a mis Mawrth 2002.

Hylendid Bwyd

12.7 Nodai'r Cynllun Gwasanaeth mai bwriad yr Awdurdod oedd cynnal tri arolwg diogelwch bwyd microbiolegol yn ystod 2003 - 2004, sef:

- Sefydliadau sy'n destun rheoliadau hylendid penodol i gynnyrch (116 sampl);
- Arolwg Basged Siopa Cymru (312 sampl);
- Arolwg Cywion Ieir Cymru NPHS/ASB (40 sampl).

12.8 Roedd nifer y samplau a gymerwyd yn cyrraedd y nod ac, yn gyffredinol, roedd y rheiny a gymerwyd yn cydberthyn i'r rhaglen samplo diogelwch bwyd arfaethedig.

12.9 Roedd y weithdrefn samplo bwyd ddogfenedig yn ddyddiedig Hydref 2001, ac roedd yn hwyr ar gyfer ei hadolygu a'i diweddaru.

12.10 Archwiliwyd cofnodion naw o samplau hylendid bwyd, y cymerwyd pob un ohonynt gan swyddogion â chanddynt awdurdod priodol. Cofnodwyd bod canlyniadau pob un o'r naw sampl yn 'anfoddhaol'.

12.11 Nid oedd yn bosibl pennu bob tro, o'r wybodaeth yn y ffeil eiddo, a gymerwyd camau dilynol priodol o ran canlyniadau anfoddhaol, yn unol â gweithdrefn ddogfenedig yr Awdurdod.

Safonau Bwyd

12.12 Nodai'r Cynllun Gwasanaeth mai bwriad yr Awdurdod oedd cynnal chwe arolwg safonau bwyd yn ystod 2003 – 2004, sef:

- Gwirodydd o westai a bwytai (50 sampl);
- Cynhyrchion gweithgynhyrchwyr lleol, ac ati (121 sampl);
- Gronellau pysgod i weld a oedd llygriad metel trwm (4 sampl);
- Cynhyrchion a ddisgrifir yn rhai sydd 'heb glwten' (6 sampl);
- Siocledi gwirodlyn i wirio eu cynnwys o ran gwirodydd (5 sampl);
- Brwgig, i bennu rhywogaeth a chynnwys o ran braster (8 sampl).

12.13 Adeg yr archwiliad, roedd nifer y samplau'n cyrraedd y nod ac, yn gyffredinol, roedd y rheiny a gymerwyd yn cydberthyn i'r rhaglen samplo safonau bwyd arfaethedig.

12.14 Archwiliwyd cofnodion tri sampl safonau bwyd. Cofnodwyd bod canlyniadau dau o'r samplau yn 'anfoddhaol'.

12.15 Mewn rhai achosion, nid oedd yn bosibl pennu, o'r wybodaeth ar ffeil, a gymerwyd camau dilynol priodol ynghylch canlyniadau anfoddhaol yn unol â gweithdrefn ddogfenedig yr Awdurdod.

12.16 Nodai'r Cynllun Gwasanaeth mai bwriad yr Awdurdod oedd cymryd 24 o samplau bwydydd anifeiliaid yn ystod 2003 - 2004, ac y cymerwyd rhai samplau eisoes.

Argymhellion

12.17 Dylai'r Awdurdod:

(i) Sicrhau y cymerir camau priodol ynghylch unrhyw anghydymffurfiad o ran bwyd, yn unol â'r polisi gorfodi.
[Y Safon – 12.2]

(ii) Adolygu a gweithredu'r weithdrefn samplo bwyd.
[Y Safon –12.4]

13 Rheoli ac Ymchwilio i Achosion a Chlefydau Heintus sy'n Ymwneud â Bwyd

13.1 Ym mis Medi 1999 cytunodd yr Awdurdod, ar y cyd â chyrff perthnasol eraill, ar gynllun dogfenedig ar gyfer Ymdrin ag Achosion o Wenwyn Bwyd a Chlefydau Perthnasol Eraill (yr OCP) a seiliwyd ar fodel a luniwyd gan gyd-weithgor ym 1999. Cynhwysai'r gweithgor Gyfarwyddwyr Gwarchod y Cyhoedd yng Nghymru, Ymgynghorwyr Grwp Rheoli Clefydau Trosglwyddadwy Cymru gyfan, Gwasanaeth Labordai Iechyd y Cyhoedd yng Nghymru, a sefydliadau perthnasol eraill.

13.2 Nodai'r OCP ei fod yn ofyniad gan Gylchlythyr Iechyd Cymru WHC(90)64 adolygu'r fath gynlluniau yn flynyddol a'u diwygio yn ôl y gofyn. Dyddiwyd y diwygiadau dogfenedig diwethaf i'r OCP ym mis Ionawr 2000, er iddo gael ei ailargraffu ym mis Mehefin 2003. Adeg yr archwiliad, cynhwysai'r OCP wybodaeth a oedd wedi dyddio ers meitin, ac ni wnaed yr addasiadau gofynnol.

13.3 Nodwyd bod yr Awdurdod yn disgwyl am gynllun modiwl diwygiedig i Gymru, a oedd yn cael ei ddrafftio gan Banel Technegol Clefydau Trosglwyddadwy, cyn mynd ymlaen i ddiwygio ei OCP.

13.4 Hefyd, roedd yr Awdurdod wedi sefydlu protocol i ymdrin ag achosion o gastro-enteritis firaol, a defnyddiodd y weithdrefn, a ddatblygwyd gan Weithgor Cryptosporidiwm, i ymchwilio i ddigwyddiadau a oedd yn ymwneud â Chryptosporidiwm mewn cyflenwadau dwr yng Nghymru, a'u rheoli.

13.5 Cafwyd un achos o glefyd heintus a oedd yn ymwneud â bwyd yn ystod y 2 flynedd cyn yr archwiliad. Er na gynullwyd tîm rheoli achosion, serch hynny, roedd tystiolaeth y cafwyd cydweithio agos rhwng swyddogion ymchwilio a Swyddog Priodol yr Awdurdod, ac y cynhaliwyd ymchwiliad cynhwysfawr a oedd, yn fras, yn unol â'r OCP.

13.6 Cynullwyd tîm rheoli achosion ym mis Ebrill 2003 i ddelio ag achos o Cryptosporidiosis nad oedd yn ymwneud â bwyd. Dangosai cofnodion y cynhaliwyd ymchwiliad eang, gan gydweithio'n agos ag awdurdod cyfagos a chyrff perthnasol eraill.

13.7 Ym mis Hydref 2001, sefydlodd yr Awdurdod weithdrefn ddogfenedig ar gyfer ymdrin ag achosion achlysurol o glefydau heintus a gynhwysai ffurflenni safonol ar gyfer cofnodi gwybodaeth yn ystod ymchwiliadau. Roedd llythyrau a holiaduron safonol ar gyfer achosion a chysylltiadau yr un peth â'r rheiny yn yr OCP.

13.8 Nid oedd swyddogion yn gweithredu mewn ffordd gyson, y weithdrefn ddogfenedig ar gyfer ymchwilio i achosion achlysurol o glefydau heintus sy'n ymwneud â bwyd.

13.9 Archwiliwyd cofnodion 12 rhybudd o achosion achlysurol. Mewn 9 achos, o ganlyniad i wallau wrth gofnodi, nid oedd yn bosibl canfod a gynhaliwyd ymchwiliad priodol yn unol â gweithdrefn ddogfenedig yr Awdurdod.

13.10 Yn bennaf, derbyniwyd rhybuddion trwy gyfrwng y ffôn wrth fynd i'r afael ag anawsterau lleol â'r rhwydwaith COSURV.

13.11 Roedd cofnodion yn cael eu cadw am 6 blynedd.

Argymhellion

13.12 Dylai'r Awdurdod:

(i) Sicrhau y caiff yr OCP ei adolygu'n flynyddol ar y cyd â'r rhanddeiliaid eraill. [Y Safon – 13.1]

(ii) Sicrhau y gweithredir y weithdrefn ar gyfer ymdrin ag achosion achlysurol o glefydau heintus sy'n ymwneud â bwyd yn llawn gan swyddogion wrth gynnal ymchwiliadau. [Y Safon – 13.2]

14 Digwyddiadau Diogelwch Bwyd

14.1 Roedd gan yr Awdurdod weithdrefn ddogfenedig ar gyfer Digwyddiadau Bwyd a Rhybuddion o Berygl a gynhwysai drefniadau ar gyfer ymateb i Rybuddion Perygl Bwyd a gyhoeddwyd gan Asiantaeth Safonau Bwyd.

14.2 Bodlonai'r weithdrefn ofynion Cod Ymarfer Rhif 16 y Ddeddf Diogelwch Bwyd o ran y System Rhybudd Perygl Bwyd. Cynhwysai drefniadau i ymdrin â digwyddiadau y tu allan i oriau gwaith arferol yr Adran, ac i rybuddio'r Asiantaeth lle nodwyd perygl bwyd gwirioneddol neu bosibl yn lleol.

14.3 Roedd gan yr Awdurdod system gyfrifiadurol a allai dderbyn Rhybuddion Perygl Bwyd, ac anfonwyd Rhybuddion Perygl Bwyd trwy gyfrwng negeseuon e-bost yn uniongyrchol at yr holl swyddogion perthnasol i sicrhau eu bod yn cael eu derbyn ac y gweithredid arnynt heb oedi. Hefyd, roedd y Prif Swyddogion a'r Uwch Swyddogion yn derbyn gwasanaeth negeseuon testun yr Asiantaeth i sicrhau gwasanaeth y tu allan i oriau gwaith arferol.

14.4 Datgelai archwiliad o gofnodion Rhybuddion Perygl Bwyd yr Awdurdod a gyhoeddwyd yn y 18 mis cyn yr archwiliad, yn gyffredinol, y gweithredid pob un yn gyflym ac yn briodol yn unol â chyngor Asiantaeth Safonau Bwyd. Dogfennwyd ymatebion, ac roeddent yn cynnwys rhybuddion yn y wasg, post-dafliadau ac ymweliadau â safleoedd.

15 Gorfodaeth

15.1 Mabwysiadwyd egwyddorion y concordat gorfodi gan yr Awdurdod a sefydlodd bolisïau gorfodi dogfenedig o ran diogelwch bwyd, ac ansawdd bwyd a safonau amaethyddol a seiliwyd ar egwyddorion arweiniol cysondeb, tegwch, cymesuredd, eglurder a didwylledd.

15.2 Cymeradwywyd fersiynau diwygiedig a diweddaredig o'r polisïau gorfodi gan Bwyllgor Gwarchod y Cyhoedd yr Awdurdod ym mis Ebrill 2001. Roedd crynodeb cyffredinol ar gael, ar ffurf taflen wybodaeth, o adeiladau dinesig ac ar wefan yr Awdurdod.

Hylendid Bwyd a Safonau Bwyd

Cyffredinol

15.3 Adroddodd yr Awdurdod y cymerwyd y camau gorfodi canlynol ganddo yn ystod y 2 flynedd cyn yr archwiliad:

1 Erlyniad;
2 Rybudd Ffurfiol;
1 Rhybudd Gwahardd Brys;
27 Rhybudd Gwella a oedd yn ymwneud ag 20 o safleoedd;
5 achos o Ildio bwyd yn Wirfoddol.

Hylendid Bwyd

15.4 Archwiliwyd cofnodion a oedd yn ymwneud ag 1 Erlyniad, 2 Rybudd Ffurfiol, 1 Rhybudd Gwahardd Brys, 8 Rhybudd Gwella a 5 achos o Ildio bwyd yn Wirfoddol, a'u gwirio yn erbyn arweiniad swyddogol, y polisi gorfodi, a gweithdrefnau perthnasol.

15.5 Roedd yn amlwg y defnyddid ystod eang o ddewisiadau gorfodi yn yr Awdurdod yn rheolaidd ac, yn gyffredinol, y cymerwyd penderfyniadau gorfodi yn unol â'r polisi gorfodi ac arweiniad swyddogol, ac y cymerwyd camau priodol lle nodwyd troseddau.

15.6 Nodwyd rhai achosion o wyro oddi wrth bolisi gorfodi'r Awdurdod a'i weithdrefnau dogfenedig a ffurfiai ran o'r polisi, ac ni ddogfennwyd y rhesymau am hyn.

15.7 Hefyd, datgelai'r archwiliad bod 3 o'r 8 Rhybudd Gwella y cofnododd yr Awdurdod iddynt gael eu cyflwyno, heb gael eu cyflwyno mewn gwirionedd, nad oedd unrhyw dystiolaeth o gyflwyno priodol mewn un achos, ac nad oedd unrhyw wiriad amserol o ran cydymffurfiad mewn un achos arall.

15.8 Roedd cofnodion yr erlyniad diweddar adeg yr archwiliad gan yr Uwch Swyddog Safonau Masnach yn eithriadol o gynhwysfawr ac wedi'u paratoi'n dda. Roeddent yn dangos yr ystyriwyd y profion tystiolaethol a

phrofion lles y cyhoedd, y bodlonwyd gofynion PACE a Chod PACE, ac y dilynwyd ac y dogfennwyd gweithdrefnau RIPA.

15.9 Hefyd, dangosai archwiliad o'r ddau Rybudd Ffurfiol a roddwyd, y cawsant eu rhoi, yn gyffredinol, yn unol â gweithdrefn yr Awdurdod ac iddynt gael eu paratoi, eu dogfennu a'u gweithredu'n dda tros ben. Fodd bynnag, o ran yr ail rybudd ffurfiol, ni roddai'r cofnodion ar ffeil reswm am gyfnod o ryw 10 mis a aethai heibio rhwng cyflawni'r drosedd a chyfeirio'r mater at adran gyfreithiol yr Awdurdod, na'r cyngor cyfreithiol ynghylch y partïon a ddylai fod wedi llofnodi'r rhybudd.

15.10 Archwiliwyd pum achos o ildio bwyd yn wirfoddol a adroddwyd gan yr Awdurdod. Disgrifiwyd un yn 'atafaeliad gwirfoddol', ac a oedd a wnelo â chynnyrch o sefydliad yn ardal yr Awdurdod a samplwyd, a lle awgrymodd y canlyniad achos posibl o lygru pathogenaidd. Roedd y weithdrefn a ddilynwyd yn effeithiol, ond nid oedd yn ymddangos unrhyw le yng ngweithdrefnau dogfenedig yr Awdurdod, nac yn unrhyw arweiniad a gyhoeddwyd yn ganolog. Mabwysiadwyd gweithdrefn 'atafaelu gwirfoddol' debyg mewn achos arall o ildio bwyd yn wirfoddol, cyn i'r bwyd perthnasol gael ei ildio'n ffurfiol i'r Awdurdod i'w ddinistrio.

15.11 Roedd y tystysgrifau ynghylch ildio bwyd yn Wirfoddol ar y ffurf a fanylwyd yng ngweithdrefn ddogfenedig yr Awdurdod, er nad oedd tri ohonynt yn dangos lleoliad, amser na'r dull o ddinistrio'r bwyd, nac i gostau'r Awdurdod gael eu cyfrifo a'u hadfer oddi wrth berchennog y bwyd, fel a fanylwyd yn y weithdrefn ddogfenedig.

15.12 Cydymffurfiwyd â'r Rhybudd Gwahardd Brys a gyflwynwyd cyn y gellid cynnal gwrandawiad am Orchymyn Gwahardd Brys. Dilynodd yr Awdurdod y weithdrefn gywir a rhoddwyd datganiad iddo gan yr Ynadon y cyflwynwyd y rhybudd yn gywir. Roedd cofnodion ynghylch cyflwyno'r rhybudd, gwneud cais i'r Llys, a thynnu'r rhybudd yn ei ôl wedi hynny, yn gynhwysfawr ac wedi'u paratoi a'u cyflwyno'n dda. Nid oedd y weithdrefn ddogfenedig yn amlinellu'r amgylchiadau penodol hyn ac, felly, efallai y bydd yr Awdurdod yn ei weld yn ddefnyddiol ei gynnwys y tro nesaf iddo adolygu'r ddogfennaeth.

Bwydydd Anifeiliaid

15.13 Ni chafwyd unrhyw gamau gorfodi ffurfiol o ran gorfodi cyfraith bwydydd anifeiliaid yn ystod y 2 flynedd cyn yr archwiliad.

Argymhellion

15.14 Dylai'r Awdurdod:

(i) Sicrhau y gorfodir cyfraith fwyd yn gwbl unol â Chodau Ymarfer perthnasol y Ddeddf Diogelwch Bwyd ac arweiniad a gyhoeddwyd yn ganolog. [Y Safon – 15.2]

(ii) Sicrhau y gwneir yr holl benderfyniadau am gamau gorfodi ar ôl ystyried y polisi gorfodi a'r gweithdrefnau dogfenedig sy'n rhan o'r polisi, ac y nodir unrhyw wyriadau oddi wrtho a dogfennu'r rhesymau am hynny. [Y Safon – 15.3]

16 Cofnodion ac Adroddiadau Arolygu

16.1 Cedwid cofnodion am safleoedd lle'r oedd gan yr Awdurdod gyfrifoldeb dros orfodi cyfraith fwyd a bwydydd anifeiliaid yn system rheoli data a gwybodaeth gyfrifiadurol Adran Gwarchod y Cyhoedd. Crëwyd cofnodion am gyfeiriadau eiddo yn yr Adran, ac nid oeddent yn gysylltiedig â geiriadur daearyddol tir ac eiddo a gydymffurfiai â BS7666.

16.2 Cedwid cofnodion arolygiadau mewn ffeiliau copi caled a gedwid yng nghyfleuster cadw oddi-ar-y-safle'r Awdurdod, ac ar ffurf crynodeb yn system rheoli data a gwybodaeth yr adran.

16.3 Cedwid cofnodion am safleoedd a ddefnyddiwyd fel busnesau bwyd neu fwydydd anifeiliaid am o leiaf 6 blynedd, yn gyffredinol, am y cyfnod hwnnw.

Hylendid Bwyd

16.4 Roedd cofnodion arolygu hylendid bwyd safleoedd a oedd yn destun y rheoliadau hylendid bwyd cyffredinol, gan gynnwys cigyddion trwyddedig, yn gynhwysfawr ac wedi'u cadw'n dda, ac roedd copïau o adroddiadau arolygu, ffurflenni cais, a thrwyddedau siopau cigyddion ar ffeil.

16.5 Cynhwysai cofnodion am safleoedd broffiliau busnes, disgrifiad o'r gweithgareddau a wnaed, dyddiadau a chanlyniadau arolygiadau ac ymweliadau, graddau risg, asesiadau pwynt rheoli critigol, asesiadau o gydymffurfiad â gofynion cyfreithiol, camau gorfodi, cwynion yn erbyn y busnes, a chopïau o ohebiaeth.

16.6 Yn gyffredinol, adlewyrchai gohebiaeth ofynion Codau Ymarfer y Ddeddf Diogelwch Bwyd ac arweiniad a gyhoeddwyd yn ganolog ac, ar y cyfan, fe'u hanfonwyd yn amserol yn unol â gweithdrefn yr Awdurdod.

16.7 Roedd cofnodion am safleoedd a oedd yn destun rheoliadau hylendid bwyd penodol i gynnyrch heb gael eu cadw cystal ac, mewn rhai achosion, roedd bylchau sylweddol yn y wybodaeth a gofnodwyd. Roedd y canlynol yn eisiau o un neu fwy o gofnodion am safleoedd:

- Adroddiad arolygu cyn-cymeradwyo;
- Dogfen gymeradwyo;
- Gradd risg;
- Adroddiad ôl-arolygu;
- Asesiad o gydymffurfiad â HACCP.

16.8 Nododd yr archwilwyr bod gwelliannau sylweddol yn cael eu cyflawni yn ansawdd a chyfanswm y wybodaeth a oedd gan yr Awdurdod ynghylch sefydliadau cymeradwy. Cynhwysai hyn defnyddio cymhorthion cof arolygu a rhestr i wirio'r cynnwys ym mhob ffeil i sicrhau y cesglir ac y cofnodir gwybodaeth a oedd yn eisiau yn ystod yr arolygiad nesaf.

16.9 Roedd nifer fach o'r cofnodion samplo a archwiliwyd, yn anghyflawn, ac yn methu â dangos bod yr Awdurdod wedi cyfathrebu'n ddigonol â busnesau, neu wedi cymryd camau dilynol digonol o ran canlyniadau'r samplo.

Safonau Bwyd

16.10 Cofnodwyd cofnodion arolygu safonau bwyd safleoedd gweithgynhyrchu ar Ffurflenni Archwilio Safonau Bwyd, a fodlonai ofynion Cod Ymarfer Rhif 8 y Ddeddf Diogelwch Bwyd. Roedd y cofnodion hyn yn gynhwysfawr ac wedi'u cadw'n dda.

16.11 Cynhwysai cofnodion broffiliau busnes, disgrifiad o'r gweithgareddau a wnaed, dyddiadau a chanlyniadau arolygiadau ac ymweliadau, asesiad o gydymffurfiad â gofynion cyfreithiol, cwynion yn erbyn y busnes, manylion a chanlyniadau samplau, a chopïau o ohebiaeth.

16.12 Nid chedwid cofnodion arolygiadau safonau bwyd ynghylch safleoedd nad oeddent yn gweithgynhyrchu, cystal. Yn gyffredinol, ni lenwid Ffurflenni Archwilio Safonau Bwyd ar gyfer arolygiadau ar safleoedd nad oeddent yn gweithgynhyrchu, ac arweiniai bylchau yn y wybodaeth a gofnodwyd at fethu â bodloni gofynion Cod Ymarfer Rhif 8 y Ddeddf Diogelwch Bwyd.

Bwydydd Anifeiliaid

16.13 Roedd cofnodion ynghylch sefydliadau a gymeradwywyd o dan reoliadau bwydydd anifeiliaid yn gynhwysfawr ac wedi'u cadw'n dda. Cofnodwyd arolygiadau ar ffurflen arolygu safonol a gynhwysai'r holl wybodaeth sy'n ofynnol i bennu cydymffurfiad â gofynion perthnasol y rheoliadau a Chyfarwyddeb 95/69/EC.

16.14 Yn gyffredinol, roedd cofnodion ynghylch safleoedd a gofrestrwyd o dan reoliadau bwydydd anifeiliaid yn llai cynhwysfawr a heb eu cadw cystal.

Argymhellion

16.15 Dylai'r Awdurdod:

(i) Sicrhau bod cofnodion ynghylch safleoedd yn gywir ac yn gyfredol. [Y Safon – 16.1]

(ii) Sicrhau bod cofnodion ynghylch safleoedd yn cynnwys adroddiadau o'r holl arolygiadau ac ymweliadau, asesiadau o gydymffurfiad â gofynion cyfreithiol, asesiadau graddio'r risg, canlyniadau samplau a manylion camau dilynol, manylion cwynion, camau anffurfiol a ffurfiol, copïau o geisiadau a phenderfyniadau o ran cofrestru, cymeradwyo a thrwyddedu, a chopïau o'r holl rybuddion, tystysgrifau a gohebiaeth. [Y Safon - 16.1]

17 Cwynion am y Gwasanaeth

17.1 Mae'r Safon yn ei wneud yn ofynnol i'r Awdurdod "sefydlu, cynnal a gweithredu gweithdrefn gwyno ddogfenedig ynghylch cwynion am y gwasanaeth, a pheri ei bod ar gael yn rhwydd i'r cyhoedd a'r busnesau bwyd a bwydydd anifeiliaid yn ei ardal".

17.2 Roedd yr Awdurdod wedi sefydlu a gweithredu Gweithdrefn Gwyno Gorfforaethol a gynhwysai ddiffiniad yr Awdurdod o 'gwyn' a ddiffiniai, yn ei dro, ei chwmpas. Roedd y diffiniad yn eithrio "anghytuno â pholisïau'r Cyngor neu gymhwysiad rheoliadau gorfodi" ac, felly, roedd y rhain y tu allan i gwmpas y weithdrefn gwyno gorfforaethol.

17.3 Cyhoeddwyd crynodeb o'r weithdrefn gorfforaethol, dan yr enw 'Cwynion, Cyflenwadau ac Awgrymiadau', ac roedd ar gael ar ffurf copi caled o Adeiladau Dinesig ac ar wefan yr Awdurdod ar y Rhyngrwyd. Roedd copi llawn o'r weithdrefn ar gael ar y wefan.

17.4 Cafwyd un gwyn yn erbyn y gwasanaeth gorfodi cyfraith fwyd yn ystod y 2 flynedd cyn yr archwiliad, ond gan ei fod yn ymwneud ag achos o anghytuno â'r ffordd y cymhwysid rheoliadau gorfodi, roedd y tu allan i gwmpas y weithdrefn gorfforaethol. Serch hynny, cafwyd ymchwiliad ac ymateb priodol, yn unol â'r weithdrefn ddogfenedig.

18 Cysylltiad â Sefydliadau Eraill

18.1 Roedd gan yr Awdurdod drefniadau cysylltu effeithiol ag awdurdodau cyfagos a chyrff priodol eraill, gyda'r nod o hwyluso gorfodaeth a oedd yn gyson. Roedd y rhain yn cynnwys cyfranogiad gweithredol yn y canlynol:

- Grwp Gorchwyl Diogelwch Bwyd De Orllewin Cymru;
- Panel Technegol Diogelwch Bwyd De Orllewin Cymru;
- Grwp Safonau Amaethyddol a Bwyd dros Gymru;
- Panel Technegol Clefydau Trosglwyddadwy De Orllewin Cymru;
- Grwp Gorchwyl Clefydau Trosglwyddadwy De Orllewin Cymru;
- Panel Bwyd ac Amaethyddiaeth Gorllewin Cymru;
- Grwp Cydlynu Samplo Safonau Bwyd Gorllewin Cymru;
- Panel Technegol Iechyd Porthladdoedd;
- Cymdeithas Awdurdodau Iechyd Porthladdoedd;
- Tasglu Bwyd Gwastraff Asiantaeth Safonau Bwyd;
- Gweithgor Asiantaeth Safonau Bwyd/Awdurdod Lleol;
- Pwyllgor Cydlynu Cregynbysgod Lleol.

18.2 Roedd cofnodion cyfarfodydd grwpiau cyswllt ar gael ac yn cadarnhau presenoldeb rheolaidd gan gynrychiolwyr priodol y Gwasanaeth.

18.3 Hefyd, roedd gan yr Awdurdod drefniadau cydweithio gweithredol â:

- Fforwm Hyfforddwyr Diogelwch Bwyd Sir Benfro;
- Grwp Bwyd ac Iechyd Sir Benfro;
- Adrannau eraill oddi mewn i'r Awdurdod;
- Yr Awdurdod Iechyd a chyrff olynol;
- Colegau lleol a darparwyr hyfforddiant eraill;
- LACORS;
- DEFRA;
- CEFAS.

18.4 Roedd ymrwymiad yr Awdurdod i rannu arbenigedd a chefnogi mentrau Asiantaeth Safonau Bwyd, a ddangoswyd gan y ffaith yr enwebwyd un o'i swyddogion i wasanaethu yn Nhasglu Bwyd Gwastraff yr Asiantaeth, yn arbennig o nodedig.

19 Monitro Mewnol

19.1 Roedd yr Awdurdod wedi sefydlu gweithdrefn fonitro fewnol ddogfenedig yn unol â Chodau Ymarfer perthnasol y Ddeddf Diogelwch Bwyd ac arweiniad a gyhoeddwyd yn ganolog. Er y cyflwynwyd y weithdrefn ym mis Mawrth 2003, oedwyd ei gweithredu tan fis Medi 2003.

19.2 Roedd y weithdrefn yn gymwys i arolygiadau, cwynion, rhybuddion statudol a cheisiadau am wasanaeth yr ymdriniwyd â nhw gan yr Adain Fwyd, Diogelwch a Iechyd Porthladdoedd, ac a oedd yr un mor gymwys i weithwyr a chontractwyr. Roedd yn cynnwys:

- Asesiad perfformiad chwarterol;
- Adolygiad o'r cofnodion cyfrifiadurol;
- Adolygiad o'r dogfennau;
- Ymweliadau yng nghwmni rhywun;
- Cyfarfodydd tîm.

19.3 Hefyd, roedd gan yr Awdurdod achrediad Buddsoddwyr mewn Pobl, a datblygwyd system perfformiad ac arfarnu gorfforaethol ganddo a oedd yn gymwys i'r holl staff a gyflogid gan yr Awdurdod. Cynhwysai'r system gorfforaethol asesiad o anghenion hyfforddi.

19.4 Gwnaed un asesiad perfformiad chwarterol o dan y system gorfforaethol, a'r gweddill o dan y system adrannol.

19.5 Cynigiwyd tystiolaeth y gweithredwyd y system gorfforaethol, a dangosai cofnodion y cynhaliwyd ac y dogfennwyd adolygiadau perfformiad ac arfarniadau personol, ac y nodwyd ac yr ystyriwyd anghenion hyfforddi.

19.6 Hefyd, cynigiwyd tystiolaeth bod y broses o weithredu'r system adrannol ar y gweill, ac y cwblhawyd y rownd gyntaf o asesiadau perfformiad ac adolygiadau o ddogfennau adeg yr archwiliad.

19.7 Roedd ymweliadau yng nghwmni rhywun arall hefyd wedi cychwyn ac, fel arfer, fe'u cynhelid pan a phryd y ceid y cyfle, fel gyda'r nos neu ar benwythnosau, pan fyddai swyddogion yn gweithio fesul dau oherwydd rhesymau diogelwch personol.

19.8 Cynhelid cyfarfodydd tîm bob 4 - 8 wythnos, a dangosai cofnodion y câi staff eu briffio am wybodaeth a pherfformiad corfforaethol ac adrannol, ac y ceid y cyfle i drafod gwybodaeth fonitro a materion perthnasol eraill.

19.9 Adroddwyd y byddai gan Uned Fusnes y Gyfarwyddiaeth, fel rhan o system Sicrwydd Ansawdd ffurfiol arfaethedig yr adran, gyfrifoldeb am archwilio gweithrediad y polisïau a'r gweithdrefnau adrannol. Hefyd, adroddwyd i weithdrefnau dogfenedig gael eu henwebu, a ddatblygwyd yn rhan o'r system ansawdd arfaethedig, yn enghraifft o arfer gorau i Weithgor Arfer Gorau'r Awdurdod.

20 Adolygiad gan Drydydd Parti neu Gydradd

20.1 Cyfranogodd yr Awdurdod yn adolygiad dogfennau ac archwilio cydymffurfiad rhyng-awdurdod o hylendid bwyd ar draws Cymru ym mis Tachwedd 1999.

20.2 Hefyd, cynhaliwyd Adolygiad Gwerth Gorau o'r Gwasanaeth Gorfodi Diogelwch Bwyd yn ystod 1999. Wedi hynny, datblygwyd Cynllun Gwella i fynd i'r afael â chanfyddiadau'r Adolygiad Gwerth Gorau. Adroddwyd y gwnaed cynnydd sylweddol adeg yr archwiliad, gyda gweddill yr eitemau naill ai yn y broses o gael eu gweithredu neu y trefnwyd gweithredu yn eu cylch yn y fframwaith rheoli prosiect.

20.3 Hefyd, cyfranogodd yr Awdurdod mewn Cenhadaeth gan Swyddfa Fwyd a Milfeddygaeth y Comisiwn Ewropeaidd i'r DU, a edrychai ar weithrediad Llywodraeth y DU o reoliadau'r Gymuned Ewropeaidd ar bysgod a chregynbysgod â'u gweithrediad ymarferol yn y maes.

20.4 Bwriad yr Awdurdod oedd cyfranogi mewn archwiliad rhyng-awdurdod o weithdrefnau gwenwyn bwyd a chlefydau trosglwyddadwy, a oedd i'w gynnal yn hwyrach yn 2004.

21 Hyrwyddo Diogelwch a Safonau Bwyd a Bwydydd Anifeiliaid

21.1 Dangosodd yr Awdurdod ymrwymiad cadarnhaol i hyrwyddo diogelwch a safonau bwyd.

21.2 Roedd Adran Gwarchod y Cyhoedd wedi cychwyn neu gyfranogi mewn ystod eang o weithgareddau hyrwyddo, ac roedd ganddi gynlluniau am fwy o waith yn y maes hwn. Roedd y gweithgareddau'n cynnwys:

- Wythnos Iechyd Ysgolion;
- Wythnos Genedlaethol Diogelwch Bwyd;
- 'Crucial Crew';
- Diwrnod Iechyd Merched;
- Gwobrau i Ysgolion Curiad Calon Cymru;
- Cynllun Dyfarniadau Hylendid Bwyd Cymru;
- Clybiau Brecwast Ysgolion a Siopau Ffrwythau;
- Digwyddiad o'r Rhaw i'r Fforc;
- Hyfforddiant ar hylendid bwyd i drinwyr bwyd.

21.3 Hefyd, roedd gan yr Adran bolisi gweithredol o gyhoeddi datganiadau rheolaidd i'r wasg ynghylch ystod eang o faterion diogelwch bwyd a maeth, y cydiwyd ynddynt a'u cyhoeddi gan y wasg leol a rhanbarthol.

Argymhelliad

21.4 Dylai'r Awdurdod:

Estyn ei weithgarwch hyrwyddo i gynnwys bwydydd anifeiliaid.
[Y Safon – 21.1]

Archwilwyr:

Prif Archwilydd: Jane Davies
Archwilwyr: Rob Wilkins
Keith Blake
Lindsay Horth
Tony Wheale

Asiantaeth Safonau Bwyd Cymru
Ty Southgate
Stryd Wood
Caerdydd
CF10 1EW

ATODIAD A

Geirfa

Dadansoddwr Amaethyddol	Rhywun, â chanddo'r cymwysterau rhagnodedig, a benodir yn ffurfiol gan awdurdod lleol i ddadansoddi samplau bwydydd anifeiliaid.
Safleoedd cymeradwy	Safle gweithgynhyrchu bwyd a gymeradwyir gan yr awdurdod lleol, yng nghyd-destun deddfwriaeth benodol, ac y rhoddir cod adnabod unigryw iddo sy'n berthnasol mewn masnach genedlaethol a/neu ryngwladol.
Swyddog awdurdodedig	Swyddog cymwys addas a awdurdodir gan yr awdurdod lleol i weithredu ar ei ran wrth, er enghraifft, orfodi deddfwriaeth.
Gwerth Gorau *	Polisi Llywodraethol â'r nod o wella perfformiad llywodraeth leol wrth ddarparu gwasanaethau i gymunedau lleol – o addysg a gofal i'r henoed, i iechyd yr amgylchedd a chynnal ffyrdd. Nod Gwerth Gorau yw sicrhau bod lefel cost ac ansawdd y gwasanaethau hyn yn dderbyniol i bobl leol trwy: • gynyddu rôl pobl leol wrth benderfynu blaenoriaethau gwasanaethau llywodraeth leol • gwella'r ffordd y mae awdurdodau'n rheoli ac yn adolygu eu busnes • adeiladu ar brofiad ac arbenigedd staff. * Yng Nghymru, disodlwyd hyn yn ddiweddar gan Raglen Cymru ar gyfer Gwella
Arolygfeydd Ffin	Man dyfod i'r DU o wledydd y tu allan i'r UE i gynnyrch sy'n deillio o anifeiliaid.
Codau Ymarfer	Codau Ymarfer y Llywodraeth a gyhoeddir o dan Adran 40 Deddf Diogelwch Bwyd 1990 yn arweiniad i awdurdodau lleol ynghylch gorfodi deddfwriaeth bwyd.
Concordat Gorfodi	Arweiniad gan y Llywodraeth sy'n nodi egwyddorion a gweithdrefnau gorfodaeth dda y gall awdurdodau lleol eu mabwysiadu. Fe'i datblygwyd mewn ymgynghoriad â busnesau, llywodraeth leol a chanolog, grwpiau defnyddwyr a phartïon eraill sydd â diddordeb. Mae'n nodi'r hyn y gall busnesau ac eraill sy'n cael eu rheoleiddio ei ddisgwyl gan swyddogion gorfodi.
Swyddog Iechyd yr	Swyddog a gyflogir gan yr awdurdod lleol i orfodi

Amgylchedd (SIA)	deddfwriaeth diogelwch bwyd.
Bwydydd Anifeiliaid	Term a ddefnyddir mewn deddfwriaeth i ddisgrifio cymysgeddau bwyd i anifeiliaid fferm ac anifeiliaid anwes.
Archwiliwr Bwyd	Person â'r cymwysterau rhagnodedig sy'n cynnal dadansoddiadau microbiolegol ar ran yr awdurdod lleol.
Rhybuddion Perygl Bwyd	Mae hwn yn system a weithredir gan Asiantaeth Safonau Bwyd i rybuddio'r cyhoedd ac awdurdodau lleol am broblemau cenedlaethol neu ranbarthol o ran diogelwch bwyd.
Hylendid bwyd	Y gofynion cyfreithiol sy'n cynnwys diogelwch ac iachusrwydd bwyd.
Safonau bwyd	Y gofynion cyfreithiol sy'n cynnwys ansawdd, cyfansoddiad, labelu, cyflwyniad a hysbysebu bwyd, a deunyddiau sy'n dod i gysylltiad â bwyd.
Cytundeb Fframwaith	Mae'r Cytundeb Fframwaith yn cynnwys: • Safon Gorfodi Cyfraith Fwyd • Arweiniad ar Gynllunio Gwasanaeth • Cynllun Monitro • Cynllun Archwilio Mae'r **Safon** a'r **Arweiniad ar Gynllunio Gwasanaeth** yn nodi disgwyliadau'r Asiantaeth ynghylch cynllunio a darparu gorfodaeth cyfraith fwyd. Mae'r **Cynllun Monitro** yn ei wneud yn ofynnol i awdurdodau lleol gyflwyno ffurflenni chwarterol i'r Asiantaeth am eu gweithgareddau gorfodi bwyd h.y. nifer yr arolygiadau, samplau ac erlyniadau. O dan y **Cynllun Archwilio** bydd Asiantaeth Safonau Bwyd yn archwilio gwasanaethau gorfodi cyfraith fwyd awdurdodau lleol yn ôl y meini prawf a nodwyd yn y Safon.
Ffigur Cyfwerth ag Amser Llawn (FTE)	Ffigur sy'n cynrychioli'r rhan hwnnw o amser swyddog unigol sydd ar gael ar gyfer swyddogaeth neu gyfres o ddyletswyddau penodol. Mae'n adlewyrchu'r ffaith y gall unigolion fod yn gweithio'n rhan amser, neu y gall fod ganddynt gyfrifoldebau eraill yn y sefydliad nad ydynt yn gysylltiedig â gorfodaeth fwyd.

HACCP	Pwynt Rheoli Critigol ar gyfer Dadansoddi Peryglon – system rheoli diogelwch bwyd a ddefnyddir mewn busnesau bwyd i nodi pwyntiau yn y broses gynhyrchu lle mae'n hanfodol i ddiogelwch bwyd y cynhelir y mesur rheoli yn gywir, a thrwy hynny ddileu neu leihau'r perygl i lefel sy'n ddiogel.
Awdurdod Cartref	Awdurdod lle ceir sylfaen benderfynu berthnasol menter, ac sydd wedi cymryd cyfrifoldeb am gynghori'r busnes hwnnw ynghylch materion yn ymwneud â diogelwch bwyd/safonau bwyd. Mae'n gweithredu fel y pwynt cyswllt canolog ar gyfer ymholiadau awdurdodau gorfodi eraill, o ran polisïau a gweithdrefnau'r cwmni hwnnw sy'n gysylltiedig â bwyd.
Rhybudd Gwella	Rhybudd a gyflwynir gan Swyddog Awdurdodedig yr awdurdod lleol o dan Adran 10 Deddf Diogelwch Bwyd 1990, sy'n ei gwneud yn ofynnol i berchennog busnes bwyd wneud gwaith addas i sicrhau bod y busnes yn cydymffurfio â gofynion deddfwriaeth hylendid bwyd neu brosesu bwyd.
Archwilio Rhyng-Awdurdod	System lle gall awdurdodau lleol archwilio gwasanaethau gorfodi cyfraith fwyd ei gilydd yn erbyn safon ansawdd a gytunwyd.
Fforwm aelodau	Fforwm awdurdod lleol lle mae Aelodau'r Cyngor yn trafod ac yn penderfynu ar wasanaethau gorfodi cyfraith fwyd.
Ffurflenni CSRhB	Ffurflenni am weithgareddau gorfodi cyfraith fwyd lleol y mae'n ofynnol eu dychwelyd i'r Undeb Ewropeaidd o dan y Gyfarwyddeb Swyddogol Rheoli Bwydydd.
Awdurdod Gwreiddiol	Awdurdod y mae busnes, yn ardal yr Awdurdod hwnnw, yn cynhyrchu neu'n pecynnu nwyddau neu wasanaethu ac y mae'r Awdurdod yn gweithredu yn bwynt cyswllt canolog iddo o ran ymholiadau gan awdurdodau gorfodi eraill am y cynhyrchion hynny.
Awdurdod Iechyd Porthladd	Awdurdod lleol y ceir, oddi mewn i'w ffiniau, bwynt mynediad i'r DU ar gyfer bwydydd a fewnforir.
Dadansoddwr Cyhoeddus	Swyddog, â chanddo'r cymwysterau rhagnodedig, a benodir yn ffurfiol gan yr awdurdod lleol i ddadansoddi samplau bwyd yn gemegol.
Graddio risg	System sy'n graddio safleoedd bwyd yn ôl y risg ac yn pennu pa mor aml y dylid arolygu'r safleoedd

	hynny. Er enghraifft, dylid arolygu safleoedd hylendid uchel eu risg, o leiaf unwaith bob 6 mis.
Cynllun Gwasanaeth	Dogfen a gynhyrchir gan awdurdod lleol sy'n nodi ei gynlluniau ynghylch darparu a chyflwyno gwasanaeth bwyd i'r gymuned leol.
Safonau Masnach	Yr Adran o fewn awdurdod lleol sydd, ymysg cyfrifoldebau eraill, yn gorfodi deddfwriaeth safonau bwyd a bwydydd anifeiliaid.
Swyddog Safonau Masnach (SSM)	Swyddog a gyflogir gan yr awdurdod lleol sydd, ymysg cyfrifoldebau eraill, yn gallu gorfodi deddfwriaeth safonau bwyd a bwydydd anifeiliaid.
Awdurdod Unedol	Awdurdod lleol lle cyfunir yr holl swyddogaethau, er enghraifft Awdurdodau Cymreig a Bwrdeistrefi yn Llundain. Bydd cyfrifoldebau Awdurdod Unedol yn cynnwys gorfodaeth hylendid bwyd, safonau bwyd a bwydydd anifeiliaid.